The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: NorthWalesConnection@pins.gsi.gov.uk

At yr holl Bartïon â Buddiant, Partïon Statudol ac Unigolion Eraill

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020015

Dyddiad: 08 Chwefror 2019

Annwyl Syr/Fadam

CAIS GAN NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC AM ORCHYMYN YN RHOI CANIATÂD DATBLYGU AR GYFER PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU

PENDERFYNIAD GWEITHDREFNOL A WNAED GAN YR AWDURDOD ARCHWILIO O DAN ADRAN 89(3) DEDDF CYNLLUNIO 2008 (FEL Y'I DIWYGIWYD) MEWN CYSYLLTIAD Â CHAIS NA DDYLAI'R CYFARFOD RHAGARWEINIOL DDIGWYDD CYN 1 MEHEFIN 2019

Rydym wedi cael cais gan yr ymgeisydd, sef National Grid Electricity Transmission PLC, na ddylai'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddigwydd cyn 1 Mehefin 2019. I grynhoi, mae'r ymgeisydd yn cynnig, yng ngoleuni newid o bwys i amgylchiadau yn ymwneud â datblygu prosiect Wylfa Newydd ers i'r cais gael ei dderbyn i'w Archwilio gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y dylai'r Cyfarfod Rhagarweiniol gael ei ohirio tan fis Mehefin 2019 i ganiatáu ar gyfer y canlynol:

1. Cwblhau'r trafodaethau ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen a grybwyllwyd gan Andrew Webb, Cyfarwyddwr Gweithredol Horizon Nuclear Power, yn ei lythyr at yr Arolygiaeth Gynllunio dyddiedig 21 Ionawr 2019; a
2. chau cais Wylfa Newydd, gyda sicrwydd canlyniadol ynglŷn ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys y rhaglen adeiladu, symudiadau traffig cysylltiedig ac asesiad o effeithiau cronnol; a'r
3. Grid Cenedlaethol i drafod â'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill perthnasol sut y gallai diwygiadau i gais Horizon effeithio ar y cais hwn; ac
4. amser i ddatblygu diwygiadau priodol i Gysylltiad Gogledd Cymru, os bydd angen, mewn ymgynghoriad ag eraill; a
5. digon o amser i Bartïon â Buddiant ac unrhyw un arall y mae'r cais yn effeithio arno ystyried pa gynrychiolaethau y gallent ddymuno eu cyflwyno ar unrhyw ddiwygiadau yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Mae manylion llawn y cais hwn a'r rhesymau drosto wedi'u hamlinellu yn llythyr yr ymgeisydd dyddiedig 28 Ionawr 2019, sydd ar gael bellach ar dudalen prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn:

disability confident EMPLOYER

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/north-wales-connection/ (safle Saesneg)

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/cysylltiad-gogledd-cymru/ (safle Cymraeg)

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol, wrth gwrs, yw cynorthwyo'r Awdurdod Archwilio i benderfynu sut y dylai'r cais gael ei archwilio. Mae'n dynodi dechrau'r Archwiliad, y mae'n rhaid iddo gael ei gynnal yn unol ag amserlen statudol lem wedi hynny.

Cyn i'r Awdurdod Archwilio benderfynu p'un ai derbyn neu wrthod y cais hwn, ceisir safbwyntiau'r holl bobl hynny y byddai ganddynt hawl i gael eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol, a safbwyntiau unrhyw un arall y mae'r Awdurdod Archwilio yn bwriadu ei wahodd i'r cyfarfod hwnnw. Bydd y broses hon yn rhoi cyfle teg i unrhyw un y gallai cais yr ymgeisydd effeithio arno fynegi ei safbwyntiau a sicrhau y cânt eu hystyried yn briodol. Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol y dylai safbwyntiau o'r fath gael eu ceisio yn y modd hwn o dan adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd).

Felly, fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ar gais yr ymgeisydd, fel y'i hamlinellir uchod, (trwy neges e-bost (NorthWalesConnection@pins.gsi.gov.uk) neu drwy lythyr (rhoddir y cyfeiriad uchod)) erbyn **22 Chwefror 2019. Sylwer bod rhaid i'ch ymateb ymwneud â chais yr ymgeisydd yn unig; nid ydym yn ceisio cynrychiolaethau ychwanegol ynglŷn â rhinweddau'r datblygiad arfaethedig ar y cam hwn.**

Yn gywir

Wendy McKay

Arolygydd Archwilio
Aelod Arweiniol y Panel – llofnodwyd ar ran yr Awdurdod Archwilio

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: NorthWalesConnection@pins.gsi.gov.uk

To all Interested Parties, Statutory Parties and Other Persons

Your Ref:

Our Ref: EN020015

Date: 08 February 2019

Dear Sir/Madam

APPLICATION BY NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC FOR AN ORDER GRANTING DEVELOPMENT CONSENT FOR THE NORTH WALES CONNECTION PROJECT

PROCEDURAL DECISION MADE BY THE EXAMINING AUTHORITY UNDER SECTION 89(3) PLANNING ACT 2008 (AS AMENDED) IN CONNECTION WITH A REQUEST THAT THE PRELIMINARY MEETING SHOULD NOT OCCUR BEFORE 1 JUNE 2019

We have received a request from the applicant, National Grid Electricity Transmission PLC, that the Preliminary Meeting (PM) should not occur before 1 June 2019. In summary, the applicant proposes that, in the light of a material change in circumstances regarding the development of the Wylfa Newydd project since the application was accepted by the Secretary of State for Examination, the PM should be delayed until June 2019 to allow for:

1. The completion of the discussions about the best way forward mentioned by Andrew Webb, Executive Director at Horizon Nuclear Power, in his letter to the Planning Inspectorate dated 21 January 2019; and
2. the closure of the Wylfa Newydd application, with consequent certainty about a range of topics including the construction programme, related traffic movements and cumulative impact assessment; and
3. National Grid to discuss with the local authorities and other relevant stakeholders how revisions to the Horizon application might affect this application; and
4. time to develop appropriate amendments to the North Wales Connection, if required, in consultation with others; and
5. sufficient time for Interested Parties and anyone else affected by the application to consider what representations they may wish to make on any revisions at the PM.

The full details of and reasons for this request are set out in the applicant's letter dated 28 January 2019 which is now available on the North Wales Connection project page on the Planning Inspectorate website at:

disability confident EMPLOYER

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/north-wales-connection/ (English language site)

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/cysylltiad-gogledd-cymru/ (Welsh language site)

The purpose of the PM is, of course, to assist the Examining Authority (ExA) in determining how the application should be examined. It marks the start of the Examination which must thereafter run to a strict statutory timetable.

Before the ExA decides whether to accede to or reject this request, the views of all those persons who would be entitled to be invited to the PM and the views of any other person that the ExA intends to invite to that meeting are sought. This process will enable anyone who might potentially be affected by the applicant's request a fair opportunity to make their views known and have them properly taken into account. The ExA has made a procedural decision to the effect that such views should be sought in this way under section 89(3) of the Planning Act 2008 (as amended).

You are therefore invited to submit comments upon the applicant's request as outlined above by e-mail (NorthWalesConnection@pins.gsi.gov.uk) or by letter (address above)) **by 22 February 2019. Please note that your response must solely be in response to the applicant's request; we are not seeking further representations on the merits of the proposed development at this stage.**

Yours faithfully

Wendy McKay

Examining Inspector
Lead Member of the Panel – signed on behalf of the Examining Authority

This communication does not constitute legal advice.
Please view our Privacy Notice before sending information to the Planning Inspectorate.

disability confident EMPLOYER